**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 4YDD MAI, 2023**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Aml-leoliad - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon / Rhithiol ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 25/4/23)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MAWRTH, 25 EBRILL 2023**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 4 MAI 2023**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 4YDD MAI, 2023 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhyddfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer 2023/24.

**2. IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2023/24.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. COFNODION** 6 - 28

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**7. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**8. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**9. CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MON 2023-28** 29 - 92

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor.

**10. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 93 - 96

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**11. UWCH GYFLOGAU** 97 - 110

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**12. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer 2023/24.

[Yn unol â gofynion Adran 14 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y Cyngor llawn sydd i benodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.]

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2022/23** 111 - 117

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**14. ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH OEDOLION GWYNEDD** 118 - 250

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Oedolion.

**15. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD RHYS TUDUR**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Rhys Tudur yn cynnig fel a ganlyn:-

**Er mwyn i'r Cyngor arloesi yn y ffordd y bydd yn monitro gweithrediad y ddarpariaeth addysg Gymraeg a'r cynnydd yn fanwl ac yn effeithiol o fewn ein hysgolion, gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi roi ystyriaeth i'r modd priodol o gasglu data a monitro'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ymhob ysgol uwchradd yn erbyn gwaelodlinau'r categorïau y mae'r ysgolion ynddynt.**

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELIN WALKER JONES**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi yn unol ag Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elin Walker Jones yn cynnig fel a ganlyn:-

**Mae gan Gymru uchelgais glodwiw i fod yn Genedl Noddfa Cymru gyntaf y Byd. Mae Gwynedd wedi gweithredu'n unol âr uchelgais hon drwy gynnig lloches i ffoaduriaid ar draws y byd. Serch uchelgais Cymru, mae Llywodraeth San Steffan yn cyflwyno Deddf Mudo Anghyfreithlon sydd yn peryglu hawliau**

**ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac yn troi'r weithred o gyrraedd ynysoedd Prydain i geisio lloches yn drosedd. Mae hyn yn gwrthdaro yn erbyn egwyddorion Confensiwn Ffoaduriaid 1951, a'n huchelgais ni yng Nghymru. Wrth ystyried yr ofn y gall negeseuon anghroesawgar Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol achosi, rydw i'n galw ar y Cyngor yma i gadarnhau ei uchelgais o fod yn cynorthwyo ffoaduriaid, er mwyn lliniaru ychydig o'r ofn yma.**

**16. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL** 251 - 252

Cyflwyno, er gwybodaeth - Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Huw Rowlands i gyfarfod 1 Rhagfyr 2022 o'r Cyngor ynglŷn â gwella gwasanaethau trenau yng Ngwynedd.